Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Mr Colin Everett
Prif Weithredwr
Cyngor Sir y Fflint
Neuadd y Sir
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 6NB

4 Mawrth 2013

Annwyl Mr Everett

**Ymweliad Monitro Estyn 4 – 8 Chwefror 2013**

Yn dilyn arolygiad o wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc yn Hydref 2011, nodwyd bod angen gweithgarwch dilynol ar yr awdurdod ar ffurf ymweliad monitro gan Estyn. Cynhaliwyd yr ymweliad monitro o 4 – 8 Chwefror 2013, ac mae'r llythyr hwn yn cofnodi deilliannau'r ymweliad hwnnw.

Arweiniwyd tîm o bump o arolygwyr gan Mererid Stone AEM i adolygu'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad cynharach, i ystyried perfformiad presennol yr awdurdod ac i nodi unrhyw feysydd eraill i'w gwella.

Cynhaliodd y tîm drafodaethau gydag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig, y prif weithredwr, uwch swyddogion, penaethiaid a chynrychiolwyr partner. Bu'r arolygwyr yn craffu ar ddogfennaeth, gan gynnwys tystiolaeth o'r cynnydd a wnaed yn unol â phob un o argymhellion yr arolygiad. Yn ogystal, fe wnaethant ystyried deilliannau o holl arolygiadau Estyn yn yr awdurdod a gynhaliwyd ers yr arolygiad gwreiddiol yn Hydref 2011. Cysylltodd y tîm â Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru hefyd.

Ar ddiwedd yr ymweliad monitro, adroddodd y tîm eu canfyddiadau wrth arweinydd y cyngor, yr aelod cabinet dros addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr corfforaethol, y prif swyddog addysg ac uwch swyddogion eraill yr awdurdod.

**Canlyniad yr ymweliad monitro**

Ers yr arolygiad yn 2011, mae'r weinyddiaeth newydd wedi blaenoriaethu'r angen am newid a gwelliant yn y gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes. Mae'r prif weithredwr a'r cyfarwyddwr addysg yn derbyn bod angen gweithredu'n gyflym er mwyn cael gwared ar rwystrau rhag gwella, ac eisoes nod y trefniadau ar gyfer y cynllun sengl newydd yw prif ffrydio trefniadau cynllunio. Mae aelodau ac uwch swyddogion wedi ymrwymo i gymryd penderfyniadau anodd i wella darpariaeth a defnyddio adnoddau yn effeithiol. Maent wedi cymryd camau defnyddiol i ysgogi gwelliannau ar lefel

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW
Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446 • Ffacs/ Fax 02920 446448
Ebost/Email enquiries@estyn.gov.uk • http://www.estyn.gov.uk
Iechyd ar Waith – Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
INVESTORS IN PEOPLE | Gold

gwasanaeth er bod rhai meysydd pwysig i'w datblygu yn parhau mewn arweinyddiaeth a rheolaeth.

Mae'r awdurdod wedi gwella ei drefniadau i gefnogi a herio ysgolion. Mae'n darparu ystod dda o ddadansoddiadau data ar gyfer ysgolion a swyddogion, gan gynnwys cymariaethau gydag ysgolion tebyg gan ddefnyddio'r meincnodau prydau ysgol am ddim. Mae swyddogion yn defnyddio'r ystod eang hon o ddata i nodi cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu yn fwy cywir. Mae'r model categoreiddio rhanbarthol yn cynnwys ffocws clir ar asesu'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion ac ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw penaethiaid a llywodraethwyr bob amser yn deall yn glir lefel y cymorth y mae gan ysgolion hawl iddi o ganlyniad i'r categoreiddio. Ar ôl ymweld ag ysgolion, mae swyddogion yn llunio adroddiadau defnyddiol ar safonau a darpariaeth. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau yn amrywio'n sylweddol o ran cynnwys ac ansawdd ac nid yw'r camau a nodwyd ar gyfer gwella yn y dyfodol bob amser yn canolbwyntio'n ddigonol ar godi safonau.

Mae gan yr awdurdod drefniadau cynhwysfawr ar gyfer cynllunio a rheoli perfformiad. Mae'n arfarnu ei berfformiad bob chwarter ac yn cwblhau hunanarfarniad blynyddol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar gofnodi camau a gwblhawyd yn hytrach nag arfarnu p'un a yw'r rhain wedi ysgogi gwelliant. Mae cynllun y gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes yn nodi themâu a blaenoriaethau polisi priodol ar gyfer gweithredu arnynt. Fodd bynnag, mae cynlluniau corfforaethol a gwasanaeth yn canolbwyntio ar fesurau cyflwyno yn hytrach na deilliannau, ac ni chaiff mentrau a phrosiectau unigol eu harfarnu'n ddigon da i wybod p'un a ydynt yn cael effaith. O ganlyniad, nid yw aelodau etholedig ac uwch swyddogion bob amser yn gwybod faint yn union o gynnydd a wnaed ac ni allant ddwyn pobl eraill i gyfrif yn gyson.

Mae'r awdurdod wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu fformiwla ariannu diwygiedig ar gyfer ei ysgolion. Mae aelodau ac uwch swyddogion wedi ymgysylltu'n effeithiol â phenaethiaid a swyddogion cyllid i flaenoriaethu'r gwaith hwn. Mae hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran monitro'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys adolygiad trylwyr o'i bolisi caffael a lleoliadau unigol ac wedi arwain at ostyngiad sylweddol yng nghost gyffredinol y ddarpariaeth.

Mae cynllun y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y tu allan i brif drefniadau cynllunio corfforaethol y cyngor. Mae'r ddwy system gynllunio hon yn ei gwneud yn anodd i bartneriaid weithio'n effeithiol gyda gwasanaethau addysg craidd. Mae'n arwain at ddyblygu a cholli cyfleoedd i gydweddu adnoddau ac ymyriadau i gefnogi'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed.

At ei gilydd, barnodd y tîm fod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd da/boddhaol tuag at fynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad arolygu. O ganlyniad i'r canfyddiadau hyn, bydd yr awdurdod yn cael ei dynnu o'r categori gweithgarwch dilynol Monitro gan Estyn.

Bydd eich arolygwyr cyswllt trwy'r rôl gyswllt arferol yn parhau i fonitro cynnydd cyffredinol er mwyn sicrhau bod yr awdurdod yn mynd i'r afael â'r holl argymhellion yn llawn.

**Cynnydd yn unol ag argymhellion yn yr adroddiad**

**A1 Gwella safonau a pherfformiad i leihau canran yr ysgolion sydd yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ledled Cymru a lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol

Yn 2012, roedd perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella yng nghynt na Chymru. Mae'n parhau i fod ymhlith y gorau yng Nghymru ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg ac ar gyfer trothwy lefel 1 hefyd. Nid yw disgyblion mwy abl yn cyflawni cystal â'r disgwyl yn unol â lefelau uwch y Cwricwlwm Cenedlaethol ac mewn Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, gostyngodd canran y disgyblion sy'n cyflawni'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 i fod islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru, ac roedd y gwelliant mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 yn arafach nag yng Nghymru yn gyffredinol.

Wrth gymharu perfformiad ysgolion Sir y Fflint gydag ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 uwchlaw'r cyfartaledd ar dri o'r pum dangosydd ac yn debyg i'r cyfartaledd ar y ddau sy'n weddill. Fodd bynnag, mae ychydig islaw'r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2, ac ymhell islaw'r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3 lle mae hanner o'r holl ysgolion yn y 25% isaf ac nid oes unrhyw ysgolion yn y 25% uchaf.

Mae'r bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn llai na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru yn y rhan fwyaf o ddangosyddion, er ei fod yn fwy yng nghyfnod allweddol 2.

**A2 Gwella safon ac ansawdd y ddarpariaeth mewn ysgolion cynradd trwy fynd i'r afael â thuedd o ostyngiad mewn presenoldeb; lleihau gwaharddiadau cyfnod penodol; a lleihau balansau a diffygion ysgolion yn unol â chanllawiau cenedlaethol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Yn 2012, bu gwelliant mewn presenoldeb mewn ysgolion cynradd. O gymharu ag ysgolion tebyg o ran y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb yn dda. Mae ysgolion a'u cyrff llywodraethol bellach yn monitro lefelau presenoldeb yn rheolaidd ac yn cymryd camau priodol i fynd i'r afael â phresenoldeb isel ar y cyd â'r gwasanaeth cynhwysiant ysgolion ac asiantaethau eraill. Mae hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr, a ddarperir gan yr awdurdod lleol, wedi helpu i godi ymwybyddiaeth llywodraethwyr am faterion presenoldeb yn eu hysgolion eu hunain. Mae hyn wedi eu galluogi i herio arweinwyr ysgol yn fwy effeithiol pan fydd presenoldeb islaw lefelau targed.

Bu tuedd ar i lawr yn nifer y diwrnodau a gollwyd trwy waharddiadau mewn ysgolion cynradd er 2010. Er gwaethaf hyn, bu cynnydd mewn gwirionedd yn niferoedd cyffredinol y disgyblion a gafodd eu gwahardd yn 2012. Mae penaethiaid yn cael cymorth gwell erbyn hyn trwy waith amlasiantaethol pan fydd disgyblion mewn perygl o gael eu gwahardd. Mae'r awdurdod wedi darparu hyfforddiant rheoli ymddygiad ar gyfer athrawon a chynorthwywyr addysgu i leihau gwaharddiadau ymhellach, er ei bod yn rhy gynnar i asesu'r effaith ar leihau gwaharddiadau. Mae swyddogion gwella ysgolion yn cynnwys materion presenoldeb a gwaharddiadau yn gynyddol mewn trafodaethau gydag ysgolion.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r awdurdod wedi rhoi systemau da ar waith i leihau balansau a diffygion mewn ysgolion, yn unol â therfynau deddfwriaethol. Mae penaethiaid ac aelodau wedi cytuno i'r rhain trwy'r fforwm cyllideb ysgolion a'r pwyllgor craffu. Mae'r holl ysgolion cynradd sydd â chyllidebau dros ben bellach yn cyflwyno cynlluniau gwariant i leihau'r gwargedau hyn er mwyn i'r awdurdod eu cymeradwyo. Mae ffigurau rhagamcan yn dangos gostyngiad sylweddol yn y gyllideb gyffredinol sydd dros ben erbyn diwedd Mawrth 2013. Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i ysgolion sydd â diffygion yn eu cyllideb wneud cais i'r awdurdod lleol am drwydded diffyg mewn cyllideb ac mae angen rhoi cynllun adfer cyllideb gadarn a chymeradwy ar waith i gael caniatâd i gynllunio diffyg mewn cyllideb.

**A3 Gwella'r modd y mae uwch swyddogion a'r holl aelodau etholedig yn gweithio gyda'i gilydd i wella safonau ar gyfer yr holl ddysgwyr; gwella hunanarfarnu ac adrodd wrth aelodau; ac ad-drefnu ysgolion uwchradd, lleihau nifer y lleoedd dros ben a defnyddio adnoddau yn well**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Mae gan aelodau etholedig allweddol ddealltwriaeth dda o'r blaenoriaethau ar gyfer gwella yn y cyngor ac maent yn cynorthwyo swyddogion wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad blaenorol. Yn y misoedd diwethaf, mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi bod yn barod i wneud penderfyniadau anodd er mwyn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau hyn.

Mae'r awdurdod wedi cyflwyno Grŵp Monitro Perfformiad yn ddiweddar, lle mae aelodau etholedig ac uwch swyddogion yn herio perfformiad ysgolion cynradd y nodwyd eu bod yn achosi pryder. Eir i'r afael ag ysgolion yn drylwyr, ac maent yn mynd yn ôl at y grŵp i adrodd am eu cynnydd. Mae hyn eisoes wedi cael effaith ar arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion cynradd a dargedir. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, ni chaiff ysgolion uwchradd eu dwyn i gyfrif yn yr un ffordd.

Mae aelodau'r Cabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Dysgu Gydol Oes yn derbyn adroddiadau gan swyddogion sy'n cynnwys gwybodaeth am safonau perfformiad mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau ar safonau yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad grwpiau o ddisgyblion sy'n agored i niwed nac am berfformiad ysgolion unigol. Mae hyn wedi ei gwneud yn anodd i aelodau herio perfformiad yn briodol a sicrhau atebolrwydd. Mae swyddogion wedi darparu hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig mewn defnyddio data perfformiad, er nad oedd hyn yn cynnwys ystod ddigon lawn o ddadansoddiadau. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar iawn ar berfformiad yr awdurdod ac a welwyd gan yr

arolygwyr yn mynd i’r afael â llawer o’r meysydd hyn, er nad oedd yr aelodau etholedig wedi gweld yr adroddiadau yma ar adeg yr ymweliad monitro.

Darparodd yr awdurdod hunanarfarniad o’i gynnydd yn erbyn yr argymhellion o’r arolygiad diwethaf.  Roedd hwn yn gadarnhaol iawn o ran ei dôn ac yn canolbwyntio ar lwyddiannau.  Mae asesiad yr awdurdod ynghylch p’un a yw wedi mynd i’r afael â’r argymhellion yn canolbwyntio gormod ar gwblhau camau yn hytrach nag arfarnu eu heffeithiolrwydd o ran gwella deilliannau.  O ganlyniad, mae’n anodd i aelodau etholedig ac uwch swyddogion wybod p’un a oes digon o gynnydd yn cael ei wneud.

Yn haf 2012, symudodd y weinyddiaeth newydd yn brydlon i gytuno ar ddewisiadau gwell ar gyfer ad-drefnu ysgolion uwchradd yn sylweddol mewn tair ardal yn y sir.  Yn dilyn ymgynghori trylwyr, bydd y cyngor yn ystyried y cynigion terfynol ym Mawrth 2013.  Mae’r awdurdod wedi gweithio’n dda hefyd i ddatblygu a mabwysiadu prosiectau ychwanegol sydd wedi eu hanelu at leihau nifer y lleoedd dros ben a defnyddio adnoddau yn fwy effeithiol.  Mae eisoes wedi cyhoeddi hysbysiadau statudol i gau ysgol fechan ac mae wrthi’n ymgynghori ar gynigion ar hyn o bryd i greu dwy ysgol 3-11 newydd trwy uno gweddill yr ysgolion babanod ac ysgolion iau.  Agorwyd ysgol gynradd newydd ym Medi 2012, ac mae gwaith wedi dechrau ar adeiladau newydd ar gyfer ysgol gynradd arall, a fydd yn cael ei gwblhau erbyn Medi 2014.

**A4 Lleihau nifer y diwrnodau addysg y mae dysgwyr yn Sir y Fflint yn eu colli oherwydd gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy ym mhob un o’i hysgolion uwchradd**

Aethpwyd i’r afael â’r argymhelliad hwn i raddau helaeth

Ers yr arolygiad diwethaf, mae’r awdurdod lleol wedi gwella ei brosesau ar gyfer delio ag ymddygiad gwael gan ddisgyblion.  Mae’n annog ysgolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am ddelio ag ymddygiad gwael mewn ysgolion.  Mae’n herio ysgolion yn fwy trylwyr ar waharddiadau, yn darparu hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr a staff, ac yn datblygu unedau ymddygiad mewnol mewn ysgolion uwchradd.

Yn ddiweddar, gyda chymorth yr awdurdod lleol, mae penaethiaid wedi datblygu canllawiau cyffredin ar gyfer ysgolion ar sut i ddelio ag ymddygiad gwael er mwyn gwella cysondeb yn y modd yr ymdrinnir â hyd y gwaharddiadau cyfnod penodol.  Mae’r awdurdod yn llunio adroddiadau gwaharddiadau misol erbyn hyn, sy’n darparu dadansoddiad manwl o waharddiadau ledled y sir.  Mae swyddogion yr awdurdod lleol a phenaethiaid wedi gwneud defnydd da o’r adroddiadau cymharol hyn i fonitro cyfraddau gwaharddiadau ar draws ysgolion.

O ganlyniad, mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o chwe diwrnod neu fwy wedi gwella, ac mae data nas gwiriwyd yn dangos ei fod bron wedi haneru dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Mae hyn yn adlewyrchu cyfraddau gwaharddiadau is yn y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf.  Mae cyfradd y disgyblion sy’n cael eu gwahardd am bum diwrnod neu lai wedi aros yr un fath, er bod nifer gyfartalog y diwrnodau a gollwyd yn sgil pob gwaharddiad wedi cynyddu dros yr un cyfnod.  Mae hyn yn bennaf oherwydd cyfraddau gwaharddiadau uchel mewn dwy ysgol uwchradd.

**A5 Gwella'r trefniadau monitro ar gyfer y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i olrhain cynnydd plant a phobl ifanc yn effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol

Mae pob partner yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn defnyddio dull cyson ar gyfer hunanarfarnu. Mae hyn yn golygu bod yr awdurdod yn cael gwybodaeth werthfawr am ystod yr ymyriadau sy'n cefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn cynnwys data deilliannau defnyddiol ar gynnydd plant a phobl ifanc.

Mae llawer o fentrau a ariennir yn allanol o fewn y bartneriaeth yn olrhain cynnydd dysgwyr a'u teuluoedd yn effeithiol. Yn yr enghreifftiau gorau, mae ymyriadau pwrpasol cynnar gyda theuluoedd yn gwneud cyfraniadau mesuradwy at ddeilliannau addysgol gwell ar gyfer dysgwyr.

Fodd bynnag, nid yw'r bartneriaeth yn cofnodi perfformiad cyffredinol yr ymyriadau yn llawn nac yn olrhain cynnydd plant a phobl ifanc yn gyson. Golyga hyn fod cyfleoedd yn cael eu colli i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac ymyriadau ar draws ffiniau sector a gwasanaeth. Yn benodol, nid yw ysgolion na gwasanaethau gwella ysgolion yn gyfarwydd â'r gwaith ymyrraeth gynnar sy'n cael ei wneud gan wasanaethau cymorth ehangach gyda dysgwyr a'u teuluoedd, felly nid ydynt yn adeiladu ar y gwaith hwn.

Mae diffyg data lefel strategol ar ddeilliannau a chynnydd yn golygu na all y bartneriaeth ddwyn pobl eraill i gyfrif yn llwyddiannus, na chael eu dwyn i gyfrif gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

**A6 Blaenoriaethu meysydd i'w gwella a nodwyd yn ei hunanarfarniad o wasanaethau addysg**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Adeg yr arolygiad diwethaf, roedd yr awdurdod wedi nodi nifer fawr o feysydd i'w gwella. Mae swyddogion wedi blaenoriaethu'r materion hyn ac wedi gwneud yn siŵr yr eir i'r afael â'r rhai pwysicaf trwy gynlluniau priodol. Caiff cynnydd ei adolygu'n rheolaidd ac adroddir amdano yn hunanarfarniad blynyddol yr awdurdod.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn i Lywodraeth Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, er gwybodaeth.

Yn gywir

**Clive Phillips**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

copi: Llywodraeth Cymu
Swydda Archwilio Cymru